# CYFRES CYNGHERDDAU RHYNGWLADOL 2019/20

# INTERNATIONAL CONCERT SERIES 2019/20



LLUN/PHOTO: LARS BORGES

St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

029 2087 8444
www.stdavidshallcardiff.co.uk

# O Brâg i Reykjavik…
# Pymtheg Cyngerdd gyda Goreuon y Byd

Pa beth bynnag sydd at eich dant chi – clasurol, corawl ynteu cyfoes – does dim dwywaith nad oes gan y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol eleni rywbeth i chi. Mae yma gerddorfeydd ac ensembles gwadd o'r Undeb Ewropeaidd, Moscow, Prâg a Reykjavik, ynghyd â rhai o unawdwyr mwya'u bri ein dydd ac rydym yn siwr y bydd arnoch eisiau dod aton ni i rai o'r cyngherddau sydd ar gynnig, os nad y cwbl. Beth am roi munud neu ddau o'ch amser i fwrw golwg ar y llyfryn yma?

### UNAWDWYR RHYNGWLADOL
Yn y gymanfa o unawdwyr o'r radd flaenaf mae'r pianyddion **Jean-Efflam Bavouzet**, **Peter Donohoe**, **Steven Osborne** a **Llŷr Williams**, y soddrythorion **Sheku Kanneh-Mason** a **Daniel Müller-Schott**, y ffidleriaid **Nicola Benedetti**, **Sayaka Shoji** a **Tasmin Little**, y gitarydd **Craig Ogden** a'r canwr corn **Benjamin Goldscheider**.

### 1. DACW'R RWSIAID
Daw'r pianydd mawr ei glod o Brydain **Peter Donohoe** at **Gerddorfa Ffilharmonig Moscow** fyd-enwog a'r arweinydd chwedlonol **Yuri Simonov** i roi gwledd o gerddoriaeth Rwsia.

### 2. ANGERDD TSIEC AC ARGRAFFIADAETH FFRENGIG
Bydd **Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru** yn eich cyfareddu â noson o liw cerddorfaol synhwyrus, alawon cynhyrfus a concerto gwych gyda'r pencerddor o soddgrythor **Daniel Müller-Schott.**

### 3. TRYDEDD ARUTHROL MAHLER
Croeso'n ôl i **Gerddorfa Symffoni Prâg** dan yr arweinydd o Ffiniad **Pietari Inkinen** i fynd â ni ar reid colli cylla teimladol, sef Trydedd Symffoni drawiadol Mahler.

### 4. BRAHMS YN CYFARFOD SIBELIUS
Mae **Vladimir Ashkenazy** a'r **Philharmonia** bob amser yn ddewis poblogaidd a dyma nhw'n cyflwyno dwy o gerrig milltir anfarwol y repertoire Rhamantaidd gyda'r ffidler campus o Japan **Sayaka Shoji**.

### 5. ROWND Y BYD YNG NGHWMNI CRAIG OGDEN
Mae gweithiau bythol i'r gitâr o Sbaen a'r Eidal ochr yn ochr â chyfoeth o gerddoriaeth o bedwar ban byd mewn rhaglen eclectig gyda'r **Manchester Camerata**.

### 6. LLAWENYDD Y NADOLIG
Daw **Harry Christophers** a **The Sixteen** yn eu holau ac i'w canlyn gymysgedd tymhorol o garolau yn hen a newydd sy'n dod â thamaid bach o'r nef i'r glust. Rhy dda i'w golli!

### 7. GLODDEST BEETHOVEN / CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC AC OPERA CENEDLAETHOL CYMRU
Mae rheng gampus o gerddorion yn ail-greu budd-gyngerdd enwog Beethoven o'r flwyddyn 1808 gyda'r pianyddion **Steven Osborne** a **Llŷr Williams** a'r arweinwyr **Jaime Martin** a **Carlo Rizzi**.

### 8. GEMAU'R REPERTOIRE
Ceinder Mozart a thân Haydn sy'n curo drwy'r rhaglen hyfryd yma gan **Gerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd** sy'n rhoi llwyfan i'r canwr corn mawr ei glod **Benjamin Goldscheider**.

### 9. CERDDORFA SYMFFONI GWLAD YR IÂ
Dan ei Phrif Arweinydd **Yan Pascal Tortelier**, mae cerddorfa genedlaethol Gwlad yr Iâ yn gwneud ei début yng Nghymru mewn rhaglen benigamp gyda'r pianydd o Ffrancwr mawr ei fri **Jean-Efflam Bavouzet**.

### 10. OFFEREN YN B LEDDF
Mae campwaith enfawr Bach yn un o gonglfeini'r cyfnod Baróc ac mae'n taro bob gafael. Peidiwch â cholli'r perfformiad yma gan yr ensemble adnabyddus, yr **Armonico Consort**.

### 11. TASMIN LITTLE
Cyfle olaf i glywed y ffidleres boblogaidd yma mewn rhaglen wefreiddiol o glasuron Rhamantaidd gan y **Royal Philharmonic Orchestra** dan **Thierry Fischer**.

### 12. DARNAU STONDIN CERDDORFAOL
Mae'r rhaglen Hwngaraidd a Rwsiaidd boblogaidd yma – sy'n rhoi llwyfan i'r **Philharmonia**, yr arweinydd o Sbaenwr **Pablo Heras-Casado** ac un o bianyddion y to sy'n codi **Daniel Kharitonov** – yn foddfa o liwiau cerddorfaol.

### 13. ANGERDD TYNGHEDUS
Noson o ddrama ddirdynnol ac ystumiau bravura gan gerddorfa **Opera Cenedlaethol Cymru** a'i harweinydd **David Adams** mewn gweithiau gan Dvořák, Prokofiev a Tchaikovsky.

### 14. GORCHEST BEETHOVEN
Dan ei sylfaenydd **Nicholas Collon**, dallodd yr **Aurora Orchestra** gynulleidfaoedd â gorchestion syfrdanol y cof ac mae'r paru yma, Beethoven a Mendelssohn, gyda **Nicola Benedetti** yn addo pencampwriaeth fythgofiadwy.

### 15. RHAMANT SWYNGYFAREDDOL
Rhaglen swynol o ddewiniaeth a phefriad o Ffrainc ynghyd â thanbeidrwydd o Rwsia gan y **Royal Liverpool Philharmonic Orchestra** a'r hoff soddgrythor **Sheku Kanneh-Mason**.



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 2 29/05/2019 14:38

# From Prague to Reykjavik... Fifteen World Class Concerts

Whether your taste is for classical, choral or contemporary, this year's International Concert Series is sure to have something for you. With visiting orchestras and ensembles from the European Union, Moscow, Prague and Reykjavik, together with some of today's most distinguished soloists, we're certain you'll want to join us for some or even all of the concerts on offer. Why not take a few minutes to look through this brochure?

### INTERNATIONAL SOLOISTS
A top-class line up of soloists includes pianists **Jean-Efflam Bavouzet**, **Peter Donohoe**, **Steven Osborne** and **Llyr Williams**, cellists **Sheku Kanneh-Mason** and **Daniel Müller-Schott**, violinists **Nicola Benedetti**, **Sayaka Shoji** and **Tasmin Little**, guitarist **Craig Ogden** and horn player **Benjamin Goldscheider**.

### 1. THE RUSSIANS ARE COMING
The acclaimed British pianist **Peter Donohoe** joins the world-renowned **Moscow Philharmonic Orchestra** and legendary conductor **Yuri Simonov** for a feast of Russian music.

### 2. CZECH PASSION & FRENCH IMPRESSIONISM
**Welsh National Opera Orchestra** will transport you with an evening of sensual orchestral colour, stirring tunes and a wonderful concerto with virtuoso cellist **Daniel Müller-Schott**.

### 3. MAHLER'S EPIC THIRD
The **Prague Symphony Orchestra** under Finnish conductor **Pietari Inkinen** make a welcome return for the emotional rollercoaster that is Mahler's stunning Third Symphony.

### 4. BRAHMS MEETS SIBELIUS
Always a popular choice, **Vladimir Ashkenazy** and the **Philharmonia** present two imperishable landmarks of the Romantic repertoire with sensational Japanese violinist **Sayaka Shoji**.

### 5. AROUND THE WORLD WITH CRAIG OGDEN
Timeless guitar works from Spain and Italy rub shoulders with a wealth of music from across the globe in an eclectic programme with the **Manchester Camerata**.

### 6. THE JOY OF CHRISTMAS
**Harry Christophers** and **The Sixteen** return for another seasonal blend of carols ancient and modern and bring with them 'a tiny soundbite of heaven'. Not to be missed!

### 7. BEETHOVEN BONANZA / BBCNOW & WNO
A fabulous line up of musicians recreate Beethoven's famed 1808 benefit concert with pianists **Steven Osborne** and **Llyr Williams** and conductors **Jaime Martin** and **Carlo Rizzi**.

### 8. JEWELS OF THE REPERTOIRE
Mozartian elegance and Haydnesque fire pulse through this handsome programme from the **European Union Chamber Orchestra** featuring internationally acclaimed horn player **Benjamin Goldscheider**.

### 9 ICELAND SYMPHONY ORCHESTRA
Under its Chief Conductor **Yan Pascal Tortelier**, Iceland's own national orchestra makes its Welsh debut in a cracking programme with distinguished French pianist **Jean-Efflam Bavouzet**.

### 10. MASS IN B MINOR
One of the pillars of the Baroque era, Bach's monumental masterpiece never fails to impress. Be sure to catch this performance from the renowned **Armonico Consort**.

### 11. TASMIN LITTLE
A last opportunity to hear this much-loved violinist in an electrifying programme of Romantic classics given by the **Royal Philharmonic Orchestra** under **Thierry Fischer**.

### 12. ORCHESTRAL SHOWPIECES
Vivid orchestral colours saturate this popular Hungarian and Russian programme featuring the **Philharmonia**, Spanish conductor **Pablo Heras-Casado** and upcoming pianist **Daniel Kharitonov**.

### 13. FATEFUL PASSIONS
An evening of tense drama and bravura gestures from the orchestra of **Welsh National Opera** and its leader **David Adams** in Dvořák, Prokofiev and Tchaikovsky.

### 14. HEROIC BEETHOVEN
Under founder **Nicholas Collon**, the **Aurora Orchestra** has dazzled audiences with astonishing feats of memory and this Beethoven and Mendelssohn coupling with **Nicola Benedetti** promises unforgettable virtuosity.

### 15. SPELLBINDING ROMANCE
A enchanting programme of French sorcery and scintillation combined with Russian ardour from the **Royal Liverpool Philharmonic Orchestra** and favourite cellist **Sheku Kanneh-Mason**.



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 3 29/05/2019 14:38

# Tanysgrifiwch i'n Pecynnau Cyngherddau ni **NAWR**

## MANTEISION PRYNU PECYN:

- Gallwch arbed hyd at 30% ar eich tocynnau ac, o'u prynu nhw'n awr, fe gewch chi dalu dros chwe mis (yn ddi-log), gan wneud i'ch arian fynd ymhellach
- Y dewis cyntaf o seddi i'r holl gyngherddau eleni
- Cerdyn Disgownt Tanysgrifiwr
- Prynu tocynnau ychwanegol nawr, neu'n nes at yr adeg, i'ch ffrindiau a'ch teulu, am eich pris disgownt tanysgrifio
- Prynu eich rhaglenni ymlaen llaw a chael disgownt – £3.00 ymlaen llaw, £3.50 ar y diwrnod.

## MANTEISION PRYNU TOCYNNAU I'R HOLL GYNGHERDDAU:

- Gwahoddiad i'n parti ni ar noson agoriadol y tymor
- Dau gyngerdd awr ginio AM DDIM o'ch dewis
- Cerdyn disgownt yn rhoi hawl i chi gael diodydd poeth a thameidiau i aros pryd 10% yn rhatach yn y Lolfa Jin a'r barrau
- Y disgownt tanysgrifio tymor cyfan mwyaf rydym wedi'i gynnig erioed, gyda gwneud mwynhau'r cyngherddau i gyd yn fwy fforddiadwy fyth
- Blwyddyn gyfan o gyngherddau gwych i edrych ymlaen atynt!

## DYDDIADAU ARCHEBU:

| Y math o archeb | Dyddiad dechrau derbyn archebion |
|---|---|
| **Codi Tanysgrifiad (y Cyngherddau ill 13)** (drwy'r post yn unig) | **ddydd Mawrth 18 Meh 2019** |
| **Codi Tanysgrifiad (9-12 o Gyngherddau)** (drwy'r post yn unig) | **ddydd Iau 20 Meh 2019** |
| **Codi Tanysgrifiad (4-8 o Gyngherddau)** (drwy'r post yn unig) | **ddydd Gwener 21 Meh 2019** |
| **Codi tocynnau i Gyngherddau Sengl** (Cyfeillion) | **ddydd Sadwrn 22 Meh 2019** |
| **Codi tocynnau Grwpiau'n Cychwyn** | **ddydd Llun 24 Meh 2019** |
| **Codi tocynnau i Gyngherddau Sengl** (y Cyhoedd) | **ddydd Mawrth 25 Meh 2019** |

Rhif Ffon Grwpiau: **029 2087 8443**
Byddwn yn nodi ceisiadau am seddi penodol, ond does dim dal y byddan nhw ar gael felly dylech gadw lle'n fuan. Os oes arnoch chi eisiau eistedd gyda'ch ffrindiau, rhowch yr archebion i gyd yn yr un amlen.



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 4 29/05/2019 14:38

# Subscribe **NOW** to our Concert Packages

## BENEFITS OF BOOKING A PACKAGE:

- You can save up to 30% on your tickets and, if you book now, you can pay over six months (interest free), making your money go even further
- First choice of seats for all our featured concerts this year
- A Subscribers Discount Card
- Buy additional tickets now, or nearer the time, for friends and family at your subscription discount rate
- Buy your programmes in advance and get a discount – £3.00 in advance, £3.50 on the day.

## BENEFITS OF BOOKING ALL 13 CONCERTS:

- An invitation to our party on the opening night of the season
- Two FREE lunchtime concerts of your choice
- A discount card entitling you to 10% off hot drinks and snacks in the Gin Lounge and bars
- The biggest full season subscription discount we have ever offered, making enjoying all the concerts even more affordable
- A whole year of superb concert going to look forward to!

## BOOKING DATES:

| Type of booking | Date when booking opens |
|---|---|
| **Subscription Booking (All 13 Concerts)** (Postal only) | **Tuesday 18 June 2019** |
| **Subscription Booking (9-12)** (Postal only) | **Thursday 20 June 2019** |
| **Subscription Booking (4-8 Concerts)** (Postal only) | **Friday 21 June 2019** |
| **Booking for Single Concerts** (Friends) | **Saturday 22 June 2019** |
| **Group Booking Opens** | **Monday 24 June 2019** |
| **Booking for Single Concerts** (General Public) | **Tuesday 25 June 2019** |

Group Telephone Number: **029 2087 8443**
We will note requests for specific seats, but allocation is subject to availability so early booking is advisable. If you wish to sit with friends, please include all orders in the same envelope.



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 5 29/05/2019 14:38



YURI SIMONOV



PETER DONOHOE

nos Fercher 9 Hydref 2019 | Wednesday 9 October 2019 | 7:30pm

# MOSCOW PHILHARMONIC ORCHESTRA

1

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Yuri Simonov | |
| Soloist | Peter Donohoe, Piano | |
| Tchaikovsky | March Slave | 10’ |
| Rachmaninov | Piano Concerto No 4 | 32’ |
| Kachaturian | Gayaneh (highlights) | |
| Tchaikovsky | Swan Lake (highlights) | |

Dyma gychwyn y tymor yn wefreiddiol ag angerdd Slafig ac egni penfeddwol dwy sgôr bale enwog, i ddechrau'r Marche Slave frwd, cathl symffonig Tchaikovsky o'r flwyddyn 1876. A phwy well na Peter Donohoe, y medalydd arian yng Nghystadleuaeth Ryngwladol Tchaikovsky Moscow 1982, allai roi tân dan Bedwerydd Concerto Piano Rachmaninov, sy'n rymus ond a glywir yn anfynych, yn waith sy'n heigio gan alawon canu'r felan sy'n eli i'r galon a phencampwriaeth ddisglair? Gyda Cherddorfa Ffilharmonig Moscow, dan yr arweinydd chwedlonol Yuri Simonov, dyma gerddoriaeth Rwsia ar ei mwyaf cymhellol.

SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapman yn egluro a thrafod y rhaglen – 6.30pm Lefel 1

This stirring season-opener brings together Slavic passion and intoxicating energy from two celebrated ballet scores, and opens with the rousing Marche Slave, Tchaikovsky's patriotic tone poem from 1876. Who better than Peter Donohoe, silver medallist at Moscow's 1982 International Tchaikovsky Competition, to ignite Rachmaninov's rarely heard but powerful Fourth Piano Concerto, a work suffused with bluesy, heart-easing tunes and glittering virtuosity? With the Moscow Philharmonic Orchestra, under legendary conductor under Yuri Simonov, this is Russian music at its most compelling.

PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapman illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 6 29/05/2019 15:02



TOMÁŠ HANUS



DANIEL MULLER-SCHOTT

dydd Sul 27 Hydref 2019 | Sunday 27 October 2019 | 3:00pm

# CERDDORFA OCC
# WNO ORCHESTRA

2

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Tomáš Hanus | |
| Soloist | Daniel Muller-Schott, Cello | |
| Smetana | Má Vlast: Vltava | 13' |
| Debussy | La Mer | 26' |
| Dvořák | Cello Concerto, Op.104 | 41' |

Ym 1905 yn y Grand Hotel yn Eastbourne y cwblhawyd campwaith symffonig Debussy, yn llun cerddorol o'r môr yn dygyfor sy'n dal yn odidog chwarae'r goleuni ar ddŵr y Môr Udd. Mae Smetana yn deffro yn y cof yn galonogol gerhyntau chwyrlïol a theimlad cenedlaetholgar yn llifo drwy Afon Moldau ym Mohemia, ei famwlad, ac mae un o'r concerti soddgrwth ceinaf a sgrifennwyd erioed yn adleisio'n hiraethus ysbryd mamwlad Dvořák ac yn talu teyrnged i'w gariad coll Josefina yn ei symudiad araf sydd fel cân.

Completed in 1905 at the Grand Hotel in Eastbourne, Debussy's symphonic masterpiece is a surging musical seascape wonderfully capturing the play of light on water in the English-channel. Swirling currents and national sentiment flow through Smetana's uplifting evocation of the River Moldau in his native Bohemia, while one of the finest cello concertos ever written wistfully echoes the spirit of Dvořák's homeland and pays tribute to his lost love Josefina in its central song-like slow movement.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Nicholas John yn egluro a thrafod y rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Nicholas John illustrates and discusses the programme – 2:00pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 7 29/05/2019 14:38



PIETARI INKINEN | Llun/Photo: Nguye Phuong Thao



ESTER PAVLŮ

nos Wener 8 Tachwedd 2019 | Friday 8 November 2019 | 7:30pm

# PRAGUE SYMPHONY ORCHESTRA

3

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Pietari Inkinen | |
| Soloist | Ester Pavlů, Mezzo-Soprano | |
| | Cardiff Metropolitan Cathedral Choir | |
| Mahler | Symphony No 3 | 100’ |

Ac yntau’r olaf o’r symffonïwyr Rhamantaidd mawr, mae cerddoriaeth Mahler ar raddfa o’r fwyaf. Roedd yn benderfynol o fynegi ei farn ar gyflwr dyn a honnai fod ei “symffonïau’n cynrychioli cynnwys fy mywyd drwyddo draw”. Mae yna rai sy’n ystyried Trydedd Symffoni Mahler ymhlith deg symffoni fwya’r oesoedd - yn emyn arddunol i fyd natur, a’i graddfa aruthrol, a lansir gan symudiad agoriadol cyffrous, yn ymagor ag egni teimladol mwyfwy ac yn dod i ben mewn apotheosis sy’n ysgubo’r nef.

As the last great Romantic symphonist, Mahler’s music is conceived on the grandest scale. Determined to express his view of the human condition, he claimed his “symphonies represent the contents of my entire life”. Regarded by some as one of the ten greatest symphonies of all time, Mahler’s epic Third Symphony is a sublime hymn to the natural world, its ambitious scale, launched by a barnstorming opening movement, unfolds with an accumulating emotional energy and culminates in a heaven-storming apotheosis.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 8 29/05/2019 14:38



VLADIMIR ASHKENAZY | Llun/Photo: Keith Saunders



SAYAKA SHOJI | Llun/Photo: Norizumi Kitada/UMLLC

nos Fercher 27 Tachwedd 2019 | Wednesday 27 November 2019 | 7:30pm

# PHILHARMONIA ORCHESTRA

4

| | | |
|---|---|---|
| **Conductor** | **Vladimir Ashkenazy** | |
| **Soloist** | **Sayaka Shoji, Violin** | |
| **Brahms** | **Violin Concerto** | **38'** |
| **Sibelius** | **Symphony No 2** | **43'** |

Yn ystod gwyliau haf ym 1878 y sgrifennodd Brahms ei Concerto Ffidil ac ers tro byd mae'n un o hoelion wyth y repertoire. Mae ar raddfa symffonig, yn waith sy'n tywynnu gan heulwen yr Alpau, mawredd ysgythrog o bob tu Adagio awyr las a harddwch sidanaidd. Ar gopaon y concerto yma mae'r ffidler o Japan Sayaka Shoji, yr enillydd cyntaf o Japanead a'r ieuaf yng Nghystadleuaeth Paganini yn Genoa ym 1999. Mae Vladimir Ashkenazy yn berfformiwr o fri ym maes gwaith Sibelius felly does dim dwywaith na chlywch egni ffrwydrol yn yr Ail Symffoni fythol-boblogaidd.

Written during a summer holiday in 1878, Brahms Violin Concerto has long been a staple of the repertoire. Built on a symphonic scale, it's a work bathed in Alpine sunlight, rugged grandeur framing an Adagio of azure skies and silken-beauty. Ascending the peaks of this concerto is Japanese violinist Sayaka Shoji, the first Japanese and youngest winner at the Paganini Competition in Genoa in 1999. Vladimir Ashkenazy is a renowned Sibelius interpreter, so you can be confident of explosive energy in the ever-popular Second Symphony.

SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapman yn egluro a thrafod y rhaglen – 6.30pm Lefel 1

PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapman illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 9 29/05/2019 14:38



MANCHESTER CAMERATA



CRAIG OGDEN

nos Fawrth 3 Rhagfyr 2019 | Tuesday 3 December 2019 | 7:30pm

# MANCHESTER CAMERATA & CRAIG OGDEN

5

Domenico Scarlatti – Sonata in E Major
Isaac Albéniz – Asturias
Agustín Mangoré Barrios – Vals Op.8 No.4
Ludovico Einaudi – Due Tramonti
Mauro Giuliani – Guitar Concerto in A Op.30, first movement
Samuel Barber – Adagio for Strings
Matthew Hindson – Rush
George Harrison – Here Comes the Sun (arr. Göran Sollscher)
Gary Ryan – Lough Caragh, Rondo Rodeo
Arvo Pärt – Spiegel im Spiegel
Arr. Morgan Pochin – Medley of Film and TV music (including Gabriel's Oboe, Inspector Morse, Cavatina, Ashokan Farewell)
Luigi Boccherini – Fandango from Guitar Quintet in D
John Brunning – Romance No.1
Miroslav Tadić, arr. Dewar – Walk Dance

Dyma 'fwydlen flasu' wirioneddol o emau cerddorol sy'n ymestyn dros dair canrif o draddodiad y gitâr ac sy'n cyfuno repertoire henbrawf Sbaen a'r Eidal â chlasuron cyfoes a threfniannau gwych. Caiff dilynwyr hoff gitarydd Awstralia flas ar raglen fyw, felodaidd ac eclectig ac iddi'n gefn y gerddorfa fentrus Manchester Camerata - "probably Britain's most adventurous orchestra" chwedl *The Times.*

This veritable 'tasting menu' of musical gems spans over three centuries of guitar tradition and combines vintage Spanish and Italian repertoire with contemporary classics and outstanding arrangements. Followers of Australia's best-loved guitarist can enjoy an eclectic, tuneful and vibrant programme supported by the enterprising Manchester Camerata, described by *The Times* as "probably Britain's most adventurous orchestra".

SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1

PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 10 29/05/2019 14:38



THE SIXTEEN

dydd Sul 15 Rhagfyr 2019 | Sunday 15 December 2019 | 3:00pm

# THE SIXTEEN

6

**Conductor: Harry Christophers**

William Walton – Make we joy now in this fest
Mediaeval carols – Nowell, nowell; Out of your sleep; Sweet was the song; In Bethlem
Traditional – The Saviour's Work (The babe in Bethlem's manger laid)
Matthew Martin – Adam lay y-bounden
Elizabeth Poston – Jesus Christ the apple tree
Peter Warlock – Corpus Christi carol
Gustav Holst – This have I done for my true love
Mediaeval carols – There is no rose; Angelus ad virginem; Make we joy
Praetorius/arr. Sandstrom – Lo, how a rose e'er blooming
James Burton – Balulalow
Cecilia McDowall – Of a Rose
Anon – The Salutation carol
Benjamin Britten – A Ceremony of Carols

Gwledd odidog o destunau traddodiadol wedi'u cyfuno â threfniannau cerddorol yn hen a newydd a berfformir gan un o'r corau gorau yn y byd sy'n gweithio ym Mhrydain heddiw. I goroni'r rhaglen dymhorol yma mae blodeugerdd garolau ysbrydoledig Benjamin Britten. Dyma'r ffordd i'r dim i gychwyn eich dathliadau 'Dolig.

A sumptuous feast of traditional texts married to ancient and modern musical settings performed by one of the world's finest choirs working in Britain today. Crowning this seasonal programme is Benjamin Britten's inspirational carol anthology. It's the perfect way to start your Christmas festivities.

**POB SEDD £25 | TOCYNNAU MANTAIS £19 | MYFYRWYR £5**
DS: Nid yw'r cyngerdd yma'n rhan o becynnau'r Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James iyn egluro a thrafod y rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

**ALL SEATS £25 | CONCS £19 | STUDENTS £5**
NB: This concert is not part of the International Concert Series packages.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 2:00pm Level 1**



Llun/Photo: Kirsten McTernan

dydd Sul 19 Ionawr 2020 | Sunday 19 January 2020 | 4:00pm

7

# CERDDORFA A CHORWS CENEDLAETHOL CYMREIG Y BBC, CERDDORFA OCC
# BBC NATIONAL ORCHESTRA & CHORUS OF WALES, WNO ORCHESTRA
# **BEETHOVEN 1808 BENEFIT CONCERT**

**RHAN 1 | PART 1: CERDDORFA OCC | WNO ORCHESTRA**

| | |
|---|---|
| Conductor | Carlo Rizzi |
| Soloist | Steven Osborne, Piano |
| Soprano | Alwyn Mellor |
| BBC National Chorus of Wales \| Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC | |
| Beethoven | Symphony No. 6 ‘Pastoral’ |
| Beethoven | Ah! perfido |
| Beethoven | Gloria, from the Mass in C major |
| Beethoven | Piano Concerto No. 4 |

**EGWYL SWPER 90 MUNUD | SUPPER BREAK – 90MINS**

**RHAN 2 | PART 2 : CERDDORFA A CHORWS CENEDLAETHOL CYMREIG Y BBC | BBC NATIONAL ORCHESTRA & CHORUS OF WALES**

| | |
|---|---|
| Conductor | Jaime Martin |
| Soloist | Llŷr Williams, Piano |
| Beethoven | Symphony No. 5 |
| Beethoven | Sanctus, from the Mass in C |
| Beethoven | Fantasia for solo piano |
| Beethoven | Choral Fantasy for piano, chorus and orchestra |



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 12 29/05/2019 14:38




Bydd y perfformiad rhagorol hwn yn ail-greu Cyngerdd Enfawr Beethoven yn Fienna ym mis Rhagfyr 1808. Dros bedair awr ar noson rewllyd yn Theatre an der Wien, heblaw am ei aria ddramatig ‘Ah Perfido’, perfformiwyd pob un o’i ddarnau am y tro cyntaf erioed. Mae’r cyngerdd ail-greu anhygoel hwn yn dod â chyfoeth o dalent ryngwladol ynghyd i gyflwyno cerddoriaeth fwyaf eiconig Beethoven, yn cynnwys yr agorawd symffonig enwocaf erioed. Bydd y sioe fawreddog hon o waith Beethoven yn ddigwyddiad i’w gofio.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 3:00pm Lefel 3**

This unmissable performance will reconstruct the historic Beethoven Benefit Concert given in Vienna in December 1808. Over the course of four hours on a freezing night at the Theatre an der Wien all but his dramatic aria ‘Ah Perfido’ received first performances. This wonderful retrospective brings a wealth of international talent to present some of Beethoven’s most iconic music, including the most famous symphonic opening ever written. This Beethoven spectacular will be an event to remember.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 3:00pm Level 3**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 13 29/05/2019 14:38



EVA STEGEMAN | Llun/Photo: Marco Borggreve



BENJAMIN GOLDSCHEIDER | Llun/Photo: Kaupo Kikkas

nos Iau 30 Ionawr 2020 | Thursday 30 January 2020 | 7:30pm

# EUROPEAN UNION CHAMBER ORCHESTRA

8

| | | |
|---|---|---|
| Director | Eva Stegeman | |
| Soloist | Benjamin Goldscheider, Horn | |
| Holst | St Paul's Suite | 12' |
| Mozart | Horn Concerto No 4 in E flat K495 | 16' |
| Mozart | Rondo for Horn | 5' |
| Tchaikovsky | Elegy for Strings | 8' |
| Haydn | Symphony No 49 'La Passione'' | 24' |

Rhwng Cyfres fywiocaol Holst i'r tannau, a sgrifennwyd i'w ddisgyblion yn Ysgol Ferched St Paul's, Llundain a symffoni 'ing ac angerdd' ddudew o dywyll Haydn, mae Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd yn cyfuno ceinder Clasurol â thynerwch Rhamantaidd. Dan gyfarwyddyd y ffidler o'r Iseldiroedd Eva Stegeman, bydd y seren ddydd a ddaw Benjamin Goldscheider, un o'r terfynwyr yng Nghystadleuaeth BBC Cerddor Ifanc y Flwyddyn 2016, yn ymuno â'r gerddorfa siambr gydwladol adnabyddus yma.

Framed between Holst's exhilarating Suite for strings, written for his pupils at St Paul's Girls' School, London and Haydn's intensely dark 'storm and stress' symphony, the European Union Chamber Orchestra combine Classical elegance and Romantic sensibility. Directed by Dutch violinist Eva Stegeman, this renowned multi-national chamber orchestra is joined by rising star Benjamin Goldscheider, a finalist in the 2016 BBC Young Musician of the Year Competition.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapman yn egluro a thrafod y rhaglen – 6.30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapman illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 14 29/05/2019 14:38



ICELAND SYMPHONY ORCHESTRA | Llun/Photo: Ari Magg



JEAN-EFFLAM BAVOUZET | Llun/Photo: Benjamin Ealovega

nos Iau 13 Chwefror 2020 | Thursday 13 February 2020 | 7:30pm

# ICELAND SYMPHONY ORCHESTRA

9

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Yan Pascal Tortelier | |
| Soloist | Jean-Efflam Bavouzet, Piano | |
| Bizet | L'Arlesienne Suite No. 2 | 18' |
| Ravel | Piano Concerto for the Left Hand | 20' |
| Thorvaldsdotir | Aeriality | 15' |
| Prokofiev | Romeo and Juliet Suite | |

Yn gwneud ei début yng Nghymru – y bu mawr edrych ymlaen ato – dyma un o gerddorfeydd cenedlaethol ieuaf Ewrop, menter gyda goreuon y byd a fydd, does dim dau, yn peri cesyg môr yn Neuadd Dewi Sant. I'w canlyn daw'r cerddorion o Reykjavik â dyfeisgarwch disglair Bizet, concerto pencampwriaethol Ravel, gyda'r pianydd mawr ei barch o Ffrancwr Jean-Efflam Bavouzet a phortread dychmygus fyw Prokofiev o "star-crossed lovers" Shakespeare. Mae dawn y brodor o Wlad yr Iâ, Anna Thorvaldsdottir, yn drawiadol ac enwebwyd ei Aeriality cyfareddol yn Gyfansoddiad y Flwyddyn yng Ngwobrau Cerddoriaeth Gwlad yr Iâ 2012.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

Making a much-anticipated Welsh debut is one of Europe's youngest national orchestras, a world-class enterprise that will be sure to create seismic waves at St David's Hall. The Reykjavik players bring Bizet's sparkling invention, Ravel's virtuosic concerto, with the esteemed French pianist Jean-Efflam Bavouzet and Prokofiev's vividly-imagined portrait of Shakespeare's star-crossed lovers. Native to Iceland is the striking talent of Anna Thorvaldsdottir whose mesmerising Aeriality was nominated as Composition of the Year at the Icelandic Music Awards 2012.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 15 29/05/2019 15:02



ARMONICO CONSORT



CHRISTOPHER MONKS

nos Wener 6 Mawrth 2020 | Friday 6 March 2020 | 7:30pm

# ARMONICO CONSORT

10

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Christopher Monks | |
| Bach | Mass in B Minor | 110' |

Croeso'n ôl i Armonico Consort, sy'n fawr ei glod gan y beirniaid, i brifddinas Cymru i berfformio campwaith aruthrol J.S. Bach. Ym 1749 y cwblhawyd yr Offeren yn B Leddf, ar ôl chwarter canrif o'i llunio yn Leipzig, ac mae'n dwyn ynghyd gymanfa odidog o gytganau a solos sy'n rhoi hwb i'r enaid ac sy'n dangos fel ei gilydd grefft syfrdanol a ffydd Gristnogol ddiysgog. Ni pherfformiwyd yr Offeren erioed yn ei chrynswth yn ystod ei oes a gellid synio amdani fel ei ewyllys a'i destament cerddorol olaf. Meddai'r cyfansoddwr, "Dyma fi ar fy ngorau".

The critically acclaimed Armonico Consort make a welcome return to the Welsh capital for J.S. Bach's towering masterpiece. Completed in 1749 and compiled over a twenty-five-year period in Leipzig, the Mass in B Minor brings together a magnificent array of life-affirming choruses and solos which demonstrate both an astonishing craftsmanship and an unshakeable Christian faith. Never performed in its entirety during his lifetime, the Mass can be compared to his musical last will and testament, and prompted the composer to declare "This is the best of me".

**POB SEDD £25 | TOCYNNAU MANTAIS £19 | MYFYRWYR £5**
DS: Nid yw'r cyngerdd yma'n rhan o becynnau'r Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**ALL SEATS £25 | CONCS £19 | STUDENTS £5**
NB: This concert is not part of the International Concert Series packages.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 16 29/05/2019 14:38



THIERRY FISCHER | Llun/Photo: Marco Borggreve



TASMIN LITTLE | Llun/Photo: Melanie Winning

nos Wener 13 Mawrth 2020 | Friday 13 March 2020 | 7:30pm

# ROYAL PHILHARMONIC ORCHESTRA

11

| | | |
|---|---|---|
| **Conductor** | **Thierry Fischer** | |
| **Soloist** | **Tasmin Little, Violin** | |
| **Borodin** | **Overture, Prince Igor** | **10'** |
| **Dvořák** | **Violin Concerto** | **32'** |
| **Brahms** | **Symphony No 1** | **45'** |

Drama liwgar, swyn heintus a nerth cawraidd ydi conglfeini'r rhaglen odidog o Ramantaidd yma gan y Royal Philharmonic Orchestra dan yr arweinydd o fri Thierry Fischer. Ystumiau trawiadol ar y timpani sy'n lansio Symffoni Gyntaf Brahms sy'n ymaflyd codwm â holl bwysau hanes cerddoriaeth ac yn dod i ben yn un o symudiadau olaf mwyaf arddunol yr un symffoni. Rhythmau cyhyrog sy'n cychwyn Concerto Ffidil Dvořák hefyd, gwaith ac iddo gyfoeth melodaidd sy'n cynnwys symudiad araf hyfryd o lithrig. Cofiwch, da chi, ddod i weld Tasmin Little cyn iddi ymddeol!

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

Colourful drama, infectious charm and titanic strength are built into this sumptuously Romantic programme from the Royal Philharmonic Orchestra under distinguished conductor Thierry Fischer. Launched by arresting timpani gestures, Brahms's First Symphony wrestles with the whole weight of musical history and ends with one of the most sublime closing movements of any symphony. Muscular rhythms also initiate Dvořák's Violin Concerto, a melodically-rich work enclosing a beautifully eloquent slow movement. Be sure to catch Tasmin Little before her retirement!

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



PABLO HERAS-CASADO



DANIEL KHARITONOV

nos Wener 3 Ebrill 2020 | Friday 3 April 2020 | 7:30pm

# PHILHARMONIA

12

| | | |
|---|---|---|
| **Conductor** | **Pablo Heras-Casado** | |
| **Soloist** | **Daniel Kharitonov, Piano** | |
| **Rimsky-Korsakov** | **Capriccio Espagnol** | **15'** |
| **Liszt** | **Piano Concerto No 1** | **20'** |
| **Prokofiev** | **Classical Symphony** | **15'** |
| **Stravinsky** | **The Firebird Suite (1945 version)** | **31'** |

Does yna fawr ddim gwell i gychwyn cyngerdd na phortread lliwgar Rimsky-Korsakov o Sbaen, chwyrligwgan o sgôr sy'n dod i ben mewn fandango eiriasboeth. Mae tanbeidrwydd a mawredd yn dal i fynd yn Concerto Piano Cyntaf Liszt a lansir gan un o agoriadau mwyaf dramatig unrhyw concerto Rhamantaidd. Y Rwsiad ifanc Daniel Kharitonov fydd yr unawdydd – pan wnaeth ei début yn y Royal Festival Hall yn 2017, meddai *Classical Source* amdano 'his potential is tremendous'. Wedyn cawn Symffoni 'Glasurol' Prokofiev a ysbrydolwyd gan Haydn ac sy'n odidog o bersain, a darn stondin cerddorfaol hudolus o hardd Stravinsky.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

Concert openers don't get much better than Rimsky-Korsakov's vibrant portrait of Spain, a barnstorming score closing with a sizzling fandango. Flamboyance and grandeur continue in Liszt's First Piano Concerto launched by one of the most dramatic openings of any Romantic concerto. Its soloist will be the young Russian Daniel Kharitonov whose 2017 Royal Festival Hall debut prompted *Classical Source* to declare 'his potential is tremendous'. There follows Prokofiev's Haydn-inspired and wonderfully tuneful 'Classical' Symphony and Stravinsky's ravishing orchestral showpiece.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



TOMÁŠ HANUS



DAVID ADAMS

dydd Sul 26 Ebrill 2020 | Sunday 26 April 2020 | 3:00pm

13

# CERDDORFA OCC
# WNO ORCHESTRA

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Tomáš Hanus | |
| Soloist | David Adams, Violin | |
| Dvořák | Othello Overture | 15' |
| Prokofiev | Violin Concerto No.2 | 27' |
| Tchaikovsky | Symphony No.4 | 45' |

Mae agorawd ddramatig Dvořák yn sylweddu'r holl gariad, gwenwyn a brad sydd yn hanes athrist Shakespeare, tra mae Ail Concerto Ffidil Prokofiev yn dwyn yn ei sgìl delynegiaeth esgynnol, lliwiau offerynnol sy'n taro'r glust yn y fan, a symudiad araf didwyll o dangnefeddus. Yn gwbl groes, ffanfferau digon i'ch llorio sy'n lansio'r saernïaeth aruthrol, Pedwaredd Symffoni lawn ing Tchaikovsky. Rhwng ei motiff tynged agoriadol enwog a'i therfyn buddugoliaethus, mae yma hylltod o alawon bythgofiadwy a sgorio dychmygus a glywir yn ddisglair o effeithiol ym mhlymio tannau'r trydydd symudiad byrlymus.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Nicholas John yn egluro a thrafod y rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

Shakespeare's tragic tale of love, jealousy and betrayal are all vividly realised in Dvořák's dramatic overture, while Prokofiev's Second Violin Concerto brings soaring lyricism, ear-catching instrumental colours and a slow movement of guileless serenity. By contrast, supercharged fanfares launch the towering structure that is Tchaikovsky's angst-ridden Fourth Symphony. Between its famous opening fate motif and triumphant close, there's no shortage of memorable tunes or imaginative scoring, heard to brilliant effect in the plucked strings of the effervescent third movement.

**PRE-CONCERT TALK: Nicholas John illustrates and discusses the programme – 2:00pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 19 29/05/2019 14:39



AURORA ORCHESTRA | Llun/Photo: Nick Rutter



NICOLA BENEDETTI | Llun/Photo: Decca/Simon Fowler

nos Lun 18 Mai 2020 | Monday 18 May 2020 | 7:30pm

# AURORA ORCHESTRA

14

| | | |
|---|---|---|
| **Conductor** | **Nicholas Collon** | |
| **Presenter** | **Tom Service** | |
| **Soloist** | **Nicola Benedetti, Violin** | |
| **Mendelssohn** | **Violin Concerto** | **26’** |
| **Beethoven** | **Symphony No. 3 (Eroica)** | **50’** |

Yn sgìl ei graddfa ddigynsail, ei hanghytgordiau ysgytwol a’i mawredd cyfleugar, gweddnewidiodd yr ‘Eroica’ ffurf y symffoni ag un ergyd syfrdanol. Yn heigio gan ddyfeisgarwch cerddorol, ailsgrifennodd Beethoven lyfr rheolau’r symffoni hyd byth. Mae’r Aurora Orchestra, hithau, yn arw am dorri tir newydd, yn adnabyddus ar gorn perfformio symffonïau yn eu crynswth ar ei chof – profiad rhy dda i’w golli. Nicola Benedetti sy’n cychwyn y rhaglen â Concerto Ffidil bytholwyrdd Mendelssohn, gwaith odiaeth o wreiddiol yn heigio gan alawon bendigedig. At hynny, bydd yna gyflwyniad rhyngweithiol gan y Darlledwr Tom Service a’r arweinydd Nicholas Collon.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

With its unprecedented scale, shattering dissonances and expressive grandeur, the ‘Eroica’ transformed symphonic form in one astounding blow. Overflowing with musical invention, Beethoven re-wrote the symphonic rulebook for all time. The Aurora Orchestra is another ground-breaking phenomenon, celebrated for its memorised performances of complete symphonies - not an experience to miss. Nicola Benedetti opens the programme with Mendelssohn’s evergreen Violin Concerto, a work of extraordinary originality and packed with wonderful tunes. In addition, there will be an interactive introduction from Broadcaster Tom Service and conductor Nicholas Collon.

**PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1**



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 20 29/05/2019 14:39



ELIM CHAN | Llun/Photo: Willeke Machiels



SHEKU KANNEH-MASON | Llun/Photo: Lars Borges

nos Sadwrn 6 Mehefin 2020 | Saturday 6 June 2020 | 7:30pm

# ROYAL LIVERPOOL PHILHARMINIC ORCHESTRA 15

| | | |
|---|---|---|
| Conductor | Elim Chan | |
| Soloist | Sheku Kanneh-Mason, Cello | |
| Dukas | Sorcerer's Apprentice | 12' |
| Saint-Saens | Cello Concerto No 1 | 20' |
| Rachmaninov | Symphonic Dances | 35' |

Croesawyd Sheku Kanneh-Mason gan *The Telegraph* gyda'r geiriau: "Technically superb and eloquent in his expressivity" a does dim dwywaith na fydd yn eich swyno â'i gelfyddyd. Mae'r rhaglen Ffrengig-Rwsiaidd ddengar yma'n dwyn ynghyd hanes poblogaidd dewiniaeth ac un o'r concerti soddgrwth mwyaf swynol yn y repertoire. Yn goron ar ei drama angerddol mae holl liwiau'r enfys blith-draphlith yn Nawnsiau Symffonig Rachmaninov, gwaith gwyllt o egnïol ac iddo gyfoeth o alawon bendigedig gan gynnwys parodi un o waltziau Fienna.

Hailed by *The Telegraph* as "Technically superb and eloquent in his expressivity", Sheku Kanneh-Mason will be sure to beguile you with his artistry. This enticing Franco-Russian programme brings together a much-loved tale of sorcery and one of the most enchanting cello concertos in the repertoire. Its passionate drama is capped by the kaleidoscopic colours of Rachmaninov's Symphonic Dances, work of tumultuous dynamism and wealth of fabulous tunes including an eerie parody of a Vienne waltz.

SGWRS CYN Y GYNGERDD: Jonathan James yn egluro a thrafod y rhaglen – 6:30pm Lefel 1

PRE-CONCERT TALK: Jonathan James illustrates and discusses the programme – 6:30pm Level 1



e5741 SDH ICS 2019-20 Brochure (17).indd 21 29/05/2019 14:39

hwyrgerdd
nightmusic

## Clasurol Cyfoes yn Lolfa L3

**hwyrgerdd** ydi ein cyfres cerddoriaeth gyfoes newydd sy'n rhoi stondin i rai o'r lleisiau cerddorol mwyaf cyffrous a neilltuol ac sy'n ffordd hamddenol o chwilio llwybrau cerddorol newydd – o unawdwyr electroacwstig i grwpiau sy'n wfftio confensiynau – ac o gael blas ar berfformiadau gwefreiddiol gan berfformwyr ifanc blaenllaw o Brydain. Ar y cyd a'r Cyfansoddwr Cyswllt, Freya Waley-Cohen, bydd **hwyrgerdd** yn arwain y ffordd i gefnogi lleisiau newydd wrth i ni roi premiere i gerddoriaeth gan y goreuon ymhlith cyfansoddwyr ifanc Cymru fydd yn rhan o bob digwyddiad, diolch i Dŷ Cerdd. Mae holl berfformiadau **hwyrgerdd** ar fynd yn amgylchfyd clyd Lolfa L3 Neuadd Dewi Sant, gyda goleuo llawn awyrgylch a chyflwyniadau llafar gan y perfformwyr i agor eu bydau cerddorol. Bydd pob digwyddiad mor anffurfiol ag ydi o ymdrwythol, a digonedd o gyfle i sgwrsio a'r artistiaid rhwng y setiau. I roi hwb i chi, rydym had yn oed yn cynnwys eich diod gyntaf ym mhris y tocyn.

nos Lun 28 Hydref 2019

## Tŷ Cerdd yn HwyrGerdd

- Siwan Rhys a Tim Parkinson – piano
- Rhodri Davies – y delyn ac electroneg

Cyfansoddi a byrfyfyrio arbrofol o Gymru, gyda'r newyddaf oll, sydd ar ganol y llwyfan: yn cynnwys gwaith gan Rhodri Davies, Angharad Davies, Richard Barrett a Catrin Jones.

nos Fawrth 14 Ionawr 2020

## MainlyTwo, George Fu a Thomas Ang

